# Agenda

## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Iau, 25 Mawrth 2021

Amser: Time Not Specified

Lleoliad:

At: Cynghorwyr:

| **Eitem** | | **Wardiau Dan Sylw** |
|---|---|---|

1 Question to the Leader : 2021/4 -Delio â Digartrefedd, ar ôl y Pandemig

**Cynghorydd J Watkins:**

Pa gynlluniau sydd gan y Cyngor hwn ar waith i gefnogi pobl sy'n dioddef digartrefedd pan fydd y Pandemig hwn ar ben?
Sut y cânt eu helpu i gael llety a gyda materion eraill y gallent fod yn delio â nhw?
A oes unrhyw waith yn digwydd mewn partneriaeth i gynorthwyo gyda'r problemau sy'n gysylltiedig â Digartrefedd ac os felly, pwy yw'r Partneriaid hynny?

**Arweinydd y Cyngor:**

Yn ystod y pandemig, atgyfnerthwyd gwaith partneriaeth drwy weithio amlasiantaethol gyda'r grwpiau canlynol :

- Yr Heddlu
- Y Gwasanaeth Prawf
- BIPAB (Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau)
- CDC (Grant Tai/ Cymorth Tai/ Iechyd yr Amgylchedd/ cymunedau cysylltiedig)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Y Trydydd Sector (Pobl)
- Elusennau a grwpiau dyngarol (Wallich, Eden Gate)

Person cyswllt: ,
Ffôn:
E-bost:Cabinet@newport.gov.uk
Dyddiad cyhoeddi: Date Not Specified

Datblygwyd gwasanaethau allgymorth digartrefedd i sicrhau bod gan y rhai sydd â dyletswydd statudol drostyn nhw o ran digartrefedd a'r rhai sy'n cysgu ar y stryd fynediad cyflym at lety, cymorth iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Mae cyllid refeniw cam 2 Llywodraeth Cymru wedi'i sicrhau ac mae'n hwyluso:

- Datblygu tîm cymorth yn ôl yr angen sy'n darparu ymyriad adeg gritigol i bobl sy'n cysgu ar y stryd.

- Allgymorth pendant o fewn Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent i ddarparu mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau a rhaglenni triniaeth.

- Gwasanaeth ymyrraeth seicolegol drwy BIPAB i ddarparu Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (ThGY) a Therapi Ymddygiad Dialectig (ThYD) i gynyddu strategaethau ymdopi ac adeiladu gwydnwch ymhlith y rhai sy'n ddigartref.

- Adolygiad o wasanaethau, bylchau a darpariaeth gwasanaethau i gynnwys penwythnosau a nosweithiau.

Mae CDC wedi gweithio'n agos gyda Pobl i ddarparu cymorth Tŷ yn Gyntaf i bobl sy'n cysgu ar y stryd.

Rydym hefyd wedi cydgysylltu gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a’r adran Budd-dal Tai i atal achosion llys a dadfeddiannu posibl oherwydd ôl-ddyledion rhent.

Datblygwyd protocolau ailgartrefu cyflym gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig partner i gynyddu cynigion eiddo tai cymdeithasol i aelwydydd digartref.

Mae cyllid cyfalaf cam 2 Llywodraeth Cymru wedi galluogi cynnig 5 prosiect tai a fydd yn darparu 40 o unedau llety un person. Dylai'r cynlluniau hyn ddechrau dod ar waith yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cynigiwyd prosiectau tai â chymorth ar gyfer pobl ifanc a rhai ag anghenion cymhleth ac mae strategaethau Sector Rhent Preifat yn cael eu datblygu i gynyddu symud ymlaen.

Mae'r polisi dyrannu yn cael ei adolygu i sicrhau bod y rhai sy'n cael eu lletya yn ystod y pandemig yn cael blaenoriaeth ar gyfer tai cymdeithasol.

Mae llawer iawn o waith partneriaeth yn digwydd a bydd yn parhau felly. Mae llety ychwanegol yn cael ei geisio a'i sicrhau'n barhaus i sicrhau bod llety a chymorth ar gael i'r grŵp hwn o unigolion.